9. That Government grant to Local Education Authorities for expenditure on the Youth Service be increased from the existing rate. (Section 20.)
10. That all "educational" youth activities be under the administrative supervision of one ministry, namely, the Ministry of Education. (Section 27.)

## RHAGARWEINIAD

Ym mis Mawrth 1943 derbyniodd Pwyllgor Ieuencid Cymru oddiwrth yr *Youth Advisory Council* ddrafft o adroddiad a gyhoeddwyd wedi hynny o dan yr enw "Y Gwasanaeth Ieuencid wedi'r Rhyfel." Gan fod yr adroddiad hwn yn ymwneuthur â'r Gwasanaeth Ieuencid yn Lloegr yn unig, barnodd Pwyllgor Ieuencid Cymru yn dda ystyried ar wahan Wasanaeth Ieuencid yng Nghymru wedi'r rhyfel. Felly, ar y 19 o fis Mawrth, 1943, penodwyd ganddynt Is-bwyllgor, a therfynau maes ei ymchwiliad fel a ganlyn :—

"I ystyried beth ddylai safle'r Gwasanaeth Ieuencid fod ar ôl y rhyfel."

Gofynwyd i'r Is-bwyllgor yn ei ymchwiliad gymryd yn ganiataol y prif ystyriaethau a ganlyn :—

(a) Y codir yr oedran gadael ysgol i 15 yn ddieithriad.

(b) Yr ystyrier y cyfnod o 15 i 18 i raddau yn gyfnod addysgol, yn yr ystyr fod yr adolescent yn parhau i fod yn wrthrych gofal y gwasanaeth addysgol.

(c) Yn codi o (b) y sefydlir cyfundrefn o addysg ran-amser yn ystod oriau gwaith, ar gyfer yr ieuencid oll, wedi iddynt orffen ag addysg lawn-amser, hyd at 18 oed.

Cyflwynodd yr Is-bwyllgor adroddiad sydd yn awr wedi'i fabwysiadu gan y Pwyllgor.

Fe ddeellir nad yw'r Weiniddiaeth Addysg, wrth gyhoeddi'r adroddiad hwn, yn ei hymrwymo'i hun i dderbyn ei gasgliadau a'i argymhellion. Ond y mae'r Weiniddiaeth yn tybied y bydd casgliadau'r Cyngor o ddiddordeb, nid yn unig i'r rheini sydd a fynnont â'r Gwasanaeth Ieuencid yng Nghymru, yn eu gwaith dydd-bwy-ddydd, ond hefyd i gylch ehangach o'r cyhoedd.

*Mr P Wheldon*

Chwefror, 1945

# GWASANAETH IEUENCTID YNG NGHYMRU

## WEDI'R RHYFEL

### I. Y Gwasanaeth Ieuencid

#### Diffiniad ac Amcan

1. Wrth ystyried y cyfnod wedi'r rhyfel mae'n oll-bwysig edrych ar y Gwasanaeth Addysg fel undod cynhenid sydd a fynno â holl gyfnod tyfiant, o blentyndod hyd llawn dwf. Gwasanaeth yw felly sydd i wneud darpariaeth nid yn unig ar gyfer y cyfnod hwnnw pryd y mae'n orfodol i'r plentyn fyned i'r ysgol a sefydliadau cyffelyb, ond hefyd ar gyfer rhoi moddion a chyflusterau iddo ddatblygo o'i wirfodd, yn ei oriau hamdden, ei ddiddordebau a'i fedr ef ei hun.

2. O edrych arni felly mae addysg yn ymrannu'n ddwy :—

(a) Y rhan honno sydd a fynno ag addysg orfodol o bob math, llawn-amser a rhan-amser, hyd at 18 oed.

(b) Y rhan honno sydd a fynno â gweithgaredd gwirfoddol yn ystod oriau hamdden.

Gwaith y Gwasanaeth Ieuencid heddiw yw gwneud darpariaeth ar gyfer hyfforddiant cymdeithasol a chorfforol i'r ieuencid hynny rhwng y 14 a'r 20 oed, nad ydynt mwyach yn derbyn addysg lawn-amser. Yn y cyfnod wedi'r rhyfel dylai fod yn gwneud darpariaeth ar gyfer rhai o bob oedran, o'r pryd pan eir yn gyffredin tu allan i'r cartref am foddion i lanw oriau hamdden, hyd pan gyrhaedder oedran gwâr. O'i ddatblygu felly byddai Gwasanaeth Hamdden yn enw mwy priodol iddo na Gwasanaeth Ieuencid.

Daw'r rhan hon o'r datblygiad ym maes addysg yn bwysicach fel y bo'r adolescent yn mynd yn hŷn, ac amser addysg orfodol yn lleihau, a dylai barhau tu hwnt i gyfnod gorfodaeth statudol, fel ag i roi cyfle i'r ieuencid ymgymryd o'u gwirfodd â derbyn hyfforddiant pellach fel paratoad ar gyfer cyfrifoldeb dinasyddiaeth lawn.

3. Yn yr Adroddiad hwn, felly, deellir wrth Wasanaeth Ieuencid ddarpariaeth a datblygiad moddion a chyflusterau i blant a phobl ieuainc feithrin o'u gwirfodd yn eu horiau hamdden ddiddordebau a doniau o bob math.

4. Erys amcan y gwasanaeth fel y mynegwyd ef yn y Memorandwm gyhoeddwyd gan Adran Gymreig y Bwrdd Addysg ym mis Mawrth 1940, fed esboniad ar Gylchlythyr 1486,—

"Hanfod y broblem yw trefnu i bobl ieuainc o'r ddau ryw moddion i dreulio'u horiau hamdden mewn modd sydd yn iachus, "gu. ddefnyddiol ac yn gydnaws, ac i wneud y moddion hwnnw'n rhan o wasanaeth addysgol y gymdeithas."

5. Er nad yw'n perthyn inni ymdrin ag amcanion cyffredinol addysg, yr ydym er hynny o'r farn ei bod yn ddyletswydd arnom awgrymu sut orau i ddelio â'r broblem arbennig hon. Cyn gwneud hynny rhaid inni fwrw golwg ar yr agweddau hynny ar gymdeithas heddiw sy'n dylanwadu'n uniongyrchol ar ddatblygiad y Gwasanaeth Ieuencid yng Nghymru.

### II. Y Cefndir Cymdeithasol

6. Y mae a fynno Pwyllgor Ieuencid Cymru â Chymru, gwlad y bu gan ei nodweddion daearyddol dylanwad trwm ar ei phobl. Mae'r rhagor rhwng

yr ardaloedd gwledig â'r ardaloedd trefol yn amlwg iawn yng Nghymru. Prin iawn yw'r boblogaeth yn yr ardaloedd gwledig, ac y mae i hyn ddylanwad uniongyrchol ar adnoddau'r Awdurdodau lleol; ac er bod dylanwad y peiriant, sydd yn nodweddiadol o'r oes bresennol, wedi treiddio i'r ardaloedd mwyaf gwledig, fe erys, serch hynny, broblemau cynhenid wledig yn galw am fodion arbennig i'w dadrys.

7. Er bod yr iaith Gymraeg yn ffynnu yn yr ardaloedd gwledig, ni ddylid anghofio bod hanner y rhan honno o boblogaeth Cymru sy'n siarad Cymraeg yn trigo ym Morgannwg drefol. Ni ddichon pwnc yr iaith lai na dylanwadu ar yr holl gyfundrefn addysg, gan gynnwys y Gwasanaeth Hamdden. Ond mae'n fwy na phwnc iaith yn unig; mae a fynno â thraddodiadau a diwylliant cenedl, a dylai'r iaith Gymraeg gael ei phriod le yng ngweithgareddau'n hieuencnid.

8. Y mae'r Cymry yn draddodiadol annibynnol eu barn; dyma a esgorodd ar y fath nodweddion â'r enwadaeth gref a ffynnodd yn eu plith, ac yr ydym yn dra sicr o weled adlewyrchiad ohono yng ngweithgareddau gwirfoddol oriau hamdden; yr ydym yn debyg felly o weled cynydd mewn grwpiau bychain a phob un â'i ddiddordeb arbennig ei hun. Peth iachus yw amrywiaeth fel hwn ac yn haeddu cefnogaeth; er hynny rhaid meithrin delfrydau cydweithrediad a chymdeithas, gan na ellir gwario arian y cyhoedd yn ddiderfyn ar gynorthwyo grwpiau bychain wrth eu gweithgareddau arbennig.

9. Mae athrylith dyn wedi esgor ar ddarganfyddiadau a ddylanwadodd ar ein bywyd mewn modd na ellir ei anwybyddu. Ym myd diwydiant mae'r peiriant sy'n pentyr ei gynyrch nwyddau, a'r difyrion a bentyrri mor afradlon o hael o flaen y lluoedd, yn rhwystr i ddatblygiad pendant yr unigolyn. Os ydym am i'r person unigol gadw'i le a'i bwys, ac os ydym am ddatblygu gwir ddemocratiaeth, lle cymer yr unigolyn ei ran yn ddeallus, rhaid gwrthsefyll effeithiau'r peirianyddu hwn sydd yn gwahanu unigolion a theuluoedd, ac yn myned dan seiliau'r ymdeimlad o unoliaeth yn ein cymdeithas. Bydd y Wladwriaeth yfory yn dibynnu ar ieuencnid heddiw, a hanfod y gorchwyl sydd o'n blaen yw sicrhau cyfleusterau iddynt ddatblygu yn ddirwystr eu doniau unigol, ac i ganfod arwyddocad cymdeithasol a pholiticaidd eu gorchwylion beunyddiol, i'r fath raddau fel ag i ddeall natur eu cyfrifoldeb i'w cymdeithas.

Dylid gwneud pob defnydd yn y gyfundrefn addysg, o dechneg medrus ac adnoddau'r ugeinfed ganrif, yn ei gweddau ffurfiol ac anffurfiol.

Cl. 10. Anodd gwneud datganiad ar bwnc crefydd. Y mae'n cymdeithas ~~socrataidd~~ ni yn derbyn delfrydau gwareiddiad Gristnogol, a rhaid i ~~ieuencnid~~, fel oedolion, wrth y symbyliad ysbyrydol sy'n deillio oddiwrth flyddol. Ond wrth edrych ar y Gwasanaeth Ieuencnid fel adran weinyddol, sy'n trefnu ei darpariaethau fel dyletswydd gymdeithasol, ni ddylid cymysgu ei swyddogaeth â swyddogaeth yr Eglwysi.

11. Cymerwn yn ganiataol fod pawb yn cytuno ar yr angen am welliannau mewn cylchoedd cymdeithasol eraill sydd yn delio â'r Gwasanaeth Ieuencnid; e.e. yr angen am ddognau teuluaid, am gwtogi oriau gwaith pobl ieuainc dan 18, ac am helaethach gwyliau cyflwynol i weithwyr ieuainc.

### III. Anghenion Hamdden Pobl Ieuainc

12. Yn ychwanegol et eu haddysg orfodol mae gan bobl ieuainc yr hawl i ddisgwyl y bydd cyfleusterau a moddion iddynt yn eu horiau hamdden, i ymarfer â gweithgareddau gwirfoddol a fydd yn dal perthynas â'u hanghenion

sylfaenol fel dinasyddion yn tyfu yn y gymdeithas sydd ohoni heddiw. Llanw'r anghenion hyn yw amcan bodolaeth y Gwasanaeth Ieuencid, a dylai'r cyfryw wasanaeth gynnwys :—

(i) Canolfannau a chlybiau Ieuencid, canolfannau adloniant ac ymarfer, cymdeithasau ag iddynt ogwydd arbennig, sefydliadau ieuaf a chanddynt raglenni pendant, grwpiau hobi, sefdliadau a'u diddordeb mewn ymarferion corff arbennig, eisteddfodau, cymanfaoedd a chyfarfodydd cystadlu, etc., etc.

(ii) Cyfle i ennill profiad ac hyfforddiant mewn cymdeithas, fel paratoad ar gyfer dinasyddiaeth lawn—e.e., Colegau preswyl i ieuencid, gwersylloedd hyfforddi yn cynnig ysbeidiau byr o hyfforddiant o natur ryddfrydol, a gogwydd bendant at ddysgu cydweithredu mewn cymdeithas, cyrsiau hyfforddi mewn awyrwriaeth a morwriaeth.

(iii) Cyfleusterau a moddion i dreulio'r gwyliau mwyaf amrywiol a chyfoethog eu natur, gan gynnwys teithio i wledydd tramor, gwersyllu o bob math, ymdeithiau ag amcanion arbennig iddynt (megis gwyddoniaeth anianyddol, dringo mynyddoedd etc.).

(iv) Cyfleusterau ac arweiniad i bobl ieuainc, fel ag i'w rhoi ar ben y ffodd i fagu athroniaeth bywyd bersonol, yn y gobaith y dônt i dderbyn y rhinweddau "Cristnogol" fel sylfaen gweithred a meddwl.

## IV. Peirianwaith

### A. Arolwg ar y Peirianwaith Presennol

13. Hyd yn hyn rhannwyd y gwaith o ddatblygu'r Gwasanaeth Ieuencid rhwng yr awdurdodau statudol â'r cyrff gwirfoddol. Yr awdurdodau statudol yw'r Weinyddiaeth Addysg (ond bod cyfrifoldeb mewn rhai materion yr gorwedd ar y Weinyddiaeth Lafur, y Weinyddiaeth Amaethyddiaeth, a'r tair Adran Wasanaeth) a'r Awdurdodau Addysg Lleol. Y cyrff gwirfoddol yw'r Sefydliadau Ieuencid Cenedlaethol, yn bennaf. Ceir peth gwasanaeth hefyd oddiwrth sefydliadau fel y Cyngor Canolog a'r gyfer Adloniant Corfforol, gyda chymorth oddiwrth y drysorfa gyhoeddus.

14. *Y Weinyddiaeth Addysg.*—Y Weinyddiaeth Addysg yw'r corff canolog cyd-drefniadol. Ei swydd, fel y'i mynegir yng Nghylchlythyr 1516 yw "canolbwytio ac arwain ymdrechion pawb sydd yn ymwneuthur â Buddiannau Ieuencid; ychwanegu at adnoddau'r sefydliadau Cenedlaethol presennol, heb ymyrryd â'u hannibynaeth; a sicrhau cydweithrediad, fel ag i fyned dros y maes mewn modd nas gwnaed hyd yma.

I'r amcan hwn mae'n gwneud grantiau fel a ganlyn :—

(a) Grantiau uniongyrchol, at amcanion hyfforddi, a gweinyddu a datblygu, i sefydliadau gwirfoddol cenedlaethol o dan Erthyglau 1(b) a (c) y Rheolau Grant at Hyfforddiant Cymdeithasol a Chorfforol, 1939, fel y'u newidiwyd gan Gwelliant Rhif 1, 1940 a Gwelliant Rhif 2, 1944.

(b) Grantiau Uniongyrchol i unedau ieuencid lleol, a dan Erthygl 1(a) o'r un Rheolau Grant, ar gymhelliad Awdurdodau Addysg Lleol neu eu Pwyllgorau Ieuencid.

(c) Grantiau i Awdurdodau Addysg Lleol o hanner eu treuliau ar Wasanaeth Ieuencid.

Rhydd y Weinyddiaeth gymorth ychwanegol trwy drefnu cyrsiau hyfforddi a thrwy wasanaeth ei harolygwyr.

Byddai'n ddymunol i'r Weinyddiaeth Addysg gyhoeddi'n flynyddol adroddiad llawn o'r hyn a gyfrannodd mewn grantiau uniongyrchol o dan Erthygl 1(c).

Nid oes gan yr Awdurdodau Addysg Lleol ar hyn o bryd syniad o gwbl am faint y swm a dreuliwyd mewn grantiau felly ar waith ieuencid ym eu hardaloedd. Yr ydym o'r farn felly y dylai pob Sefydliad Ieuencid Cenedlaethol, sydd yn derbyn grant o dan erthygl 1(c) o'r Rheolau, roi gwybodaeth bob blwyddyn i'r awdurdodau statudol am y ffordd y dosrannwyd y grant hwn.

15. *Awdurdodau Addysg Lleol*.—Yr Awdurdodau Addysg Lleol yw cyrff gwaith y Gwasanaeth Ieuencid. Dywed Cylchlythyr 1516 amdanyst "Y maent i fod ar y blaen yn eu hardaloedd eu hun; i drefnu'r peirianwaith sydd i sicrhau cydweithrediad lleol; i roi cefnogaeth i'r sefydliadau eisoes ar waith i ddatblygu'r gwaith hwnnw; ac i lanw'r bylchau nas llenwir gan y sefydliadau hyn. Gwnaethant hyn drwy arwain yn y weinyddiaeth leol, naill ai trwy gynorthwyo cyrff gwirfoddol a grantiau o arian (o dan Adran 86 o Fesur Addysg, 1921, fel y'i newidiwyd gan Adran 6 o'r Mesur Hyfforddiant ac Adloniant Corff, 1937) a thrwy drefnu gwasanaethau o lawer math; neu drwy eu hunain drefnu gwaith ieuencid anffurfiol. Maent hefyd wedi sefydlu Pwyllgorau Ieuencid, a phenodi Swyddogion Ieuencid, ac wedi roi cyfarwyddyd cyffredinol i'r gwaith ieuencid yn eu hardaloedd.

Anwastad fu datblygiad y Gwasanaeth Ieuencid, ac ni ellid osgoi hynny. Ni bu rhai Awdurdodau Addysg Lleol, am wahanol resymau, mor weithgar a'i gilydd, ac esboniwyd cylchlythyrau'r Weinyddiaeth Addysg mewn amrywiol ddulliau.

16. Mae i ddyfodiad yr awdurdodau statudol i faes gwaith ieuencid fanteision amlwg. Mae ganddynt hwy'r adnoddau ariannol sydd yn eisiau ar gyfer y gwaith; rhydd eu swydd barhaol a'u sefydlogrwydd sicrwydd parhad mewn polisi, a diogelwch a status galwedigaethol i'r gweithwyr cyflog yn y gwasanaeth. Maent hwy hefyd yn ymgorfforiad o'r egwyddor werinlywodraethol sy'n rhoi'r rheolaeth ar arian y cyhoedd a werir ar y Gwasanaeth Ieuencid i gyrrf a etholwyd gan y cyhoedd.

17. Wrth geisio sicrhau moddion digonol ar gyfer oriau hamdden cyfeiriodd yr Awdurdodau Addysg Lleol eu hymdrehcion yn bennaf at gynorthwyo gwaith y cyrff gwirfoddol. Ond mae rhai Awdurdodau—yn ogystal a gwneud grantiau o arian, a chynnig manteision megys gwasanaeth hyfforddwyr cymwys, defnydd rhad o ysgolion, ysgolion a chyrsiau hyfforddi, cyfarfodydd cystadlu, rhoi benthyg llyfrau, etc.—wedi gwneud arbrofion ar sefydlu eu canolfannau a'u sefydliadau ieuencid eu hunain, a thalu'r arweinwyr.

Tybir weithiau fod Awdurdodau Addysg Lleol, wrth agor y canolfannau ieuencid hyn, yn sefydlu cynreolau newyddion, o dan awdurdod newydd. Ni sylweddolir yn ddigon clir eu bod wedi derbyn yr awdurdod hwn yn y Mesurau Addysg 1918 a 1921, a bod rhai ohonynt wedi gwneud defnydd ohonynt cyn 1939.

Mewn gwlad lle ffynna'r egwyddor o "lywodraethu trwy gytundeb", peth holol normal a naturiol yw gwneud defnydd o sefydliadau "gwladwriaethol" i ddwyn i weithrediad egwyddor addysgol, a benderfynwyd arni mewn dull democraidd, Cyhyd ag y glynar at yr egwyddor mai gwirfoddol yw unrhyw weithgareddau yr ymgamerer a hwynt mewn oriau hamdden (ac nid oes lle i gredu bod neb yn dymuno'n amgen) gellir edrych ar aelodaeth o unrhyw gymdeithas ieuencid, pa un ai o dan weinyddiaeth corff statudol, neu gorff gwirfoddol, fel ymgorfforiad o'r egwyddor o "gydgynnull rhydd er mwyn cydweithgarwch." Ni welwn lai na ddyllai gwaith ieuencid o dan nawdd uniongyrchol yr awdurdod statudol ddatblygu'r nodweddiion hynny yr ydym yn eu dymuno, sef amrywiaeth, rhyddid, hunanlywodraeth a chyd-ddeal-wriaeth yn ffynnu rhwng yr aelodau a'r arweinwyr.

18. Rhoddodd y prinder moddion i dreulio oriau hamdden, yn y cyfnod rhwng y ddau rhyfel, gyfle i'r mudiadau gwirfoddol a oedd mewn bod ar y

pryd wella peth ar bethau, a daeth hefyd â nifer o fudiadau newydd i fod. Dyma a fu swyddogaeth ymdrech wifoddol erioed, sef llanw angen cymdeithasol, a braenaru'r tir wrth wneuthur hynny, ac o dipyn i beth dwyn y werin i ymwybod â'i dyletswydd cenedlaethol. Y mae ar y Gwasanaeth Ieuencid angen heddiw am y gwasanaeth hwn ar law'r mudiadau gwirfoddol, a bydd arno'r un angen yn y dyddiau sydd i ddyfod.

Erbyn heddiw derbyniwyd deunaw o fudiadau gwirfoddol yn aelodau o Gynhadledd Sefydlog y Mudiadau Ieuencid Gwirfoddol Cenedlaethol. Mae'r mwyafrif o'i mudiadau hyn yn derbyn grantiau uniongyrchol oddiwrth y Weinyddiaeth Addysg. Buont yn gweithio dros fuddiannau ieuencid am flynyddoedd lawer, a hynny ar adnoddau prin, pan nad oedd grantiau i'w cael o flynonellau swyddogol, a syn yw iddynt gyflawni cymaint. A phan gawsant anogaeth oddiwrth y Bwrdd Addysg i ddatblygu eu gwaith, ac iddo'i cynorthwyo â grantiau hael, amlwgwyd ganddynt yr un brwdfrydedd a'r un anturiaeth ag a welwyd yn nyddiau eu cyni. Yr ydym mewn dyled drom iddynt.

19. Bu cychwyn y rhyfel yn llestair ar waith yr holl fudiadau hyn, ond daeth y polisi a gyhoeddwyd yng Nghylchlythyr 1486 â chymorth iddynt. Esmwyth-haodd ar eu baich ariannol, a throi eu sylw fwyfwy at broblem y bechgyn a'r merched o'r 14 i'r 20 oed, a oedd wedi gadael ysgol. Nid ydym o'r farn fod y canolbwytio hwn wedi hyrwyddo buddiannau gorau'r Gwasanaeth Ieuencid na'r Mudiadau Gwirfoddol eu hunain, ac awgrymwn annog y mudiadau hyn i helaethu terfynau eu gweithgarwch, ac ystyried Gwasanaeth Hamdden fel syniad sy'n cynnwys pob oedran o fewn ei derfynau, gan fod angen mawr yma am waith arloesi ac am ddelfrydiaeth.

Teimlwn mai trwy'r gwaith arloesi a'r ddelfrydiaeth hon y gall y mudiadau gwirfoddol wasanaethu achos ieuencid orau, ac nid trwy ddatblygu darpariaethau y mae'r Awdurdodau Addysg Lleol mewn gwell ffordd i'w paratoi. Byddai rhannu cyfrifoldeb fel hyn rhwng y cyrff statudol a'r mudiadau gwirfoddol yn rhuddhau'r mudiadau gwirfoddol o lawer o'u gofalon ariannol, a hwyluso'r fiordd iddynt yn eu gwaith gyda'r cylchoedd a'r oedrannau, y mae eu diddordeb fwyaf arbennig ynddynt. Mynegwn felly ein cred mewn Gwasanaeth Ieuencid cenedlaethol wedi ei sylfaenu ar syniad fel hwn o bartneriaeth rhwng y Weinyddiaeth Addysg, yr Awdurdodau Addysg Lleol a'r Mudiadau Gwirfoddol.

## B. Peirianwaith y Dyfodol

20. Wrth gyflwyno ein hawgrymiadau ar gyfer datblygu'r Gwasanaeth Ieuencid yn y cyfnod wedi'r rhyfel, cymerwn fel egwyddor sylfaenol yr hawl sydd gan bob mab a merch ieuanc i gyfleusterau o bob rhyw fath i dreulio oriau hamdden, ynghyd a rhyddid dewisiad a mynegiant llawn a dilyfethair. Dylai'r cyfryw ddarpariaethau ddwyn arnynt lun a delw hawlfraint ddinesig, ac ni ddylid eu difwyno â nod tlodi, fel yn achos y grantiau Ardaloedd Arbennig, a fu'n gymaint cyfrwng i rwygo patrwm y gymdeithas yn ardaloedd trefol De Cymru.

O hyn ymlaen hyd pan welom ddwyn i ben yr egwyddor o ddarpariaeth lwyd, ceir gweled cyfnod o drawsewid graddol, a hynny dros rai blynnyddoedd. Yn y cyfnod hwn barnwn mai buddiol, onid angenreheidiol, fydd gwneud defnydd o'r peirianwaith sydd wrth law eisoed, gyda rhai cyfnewidiadau. Ni ddylai cyfnod y trawsnewid, er hynny, fod yn faith, a dylid datblygu'r gwaith yn wastad ac yn ddigonol dros yr holl wlad. Er mwyn sicrhau hyn, a chadw mewn golwg fod adnoddau Awdurdodau Addysg Lleol yn amrywio (ac anwybyddu'r posiblwydd o drefnu grwpiau o Awdurdodau ar raddfa ehangu) yr ydym o'r farn y dylid chwanegu at y grant a delir ar dreuliau Awdurdodau Addysg Lleol ar y Gwasanaeth Ieuencid.

21. Yma dymunem alw sylw at y tebygrwydd rhwng safle bresennol y Gwasanaeth Ieuencid â safle addysg elfennol yng nghanol y ganrif olaf. Gwnaed grantiau i gynorthwyo mudiadau gwirfoddol gyntaf yn 1833, ac fe'u cynyddwyd yn raddol hyd 1870, pan benderfynodd y Wladwriaeth fabwysiadu cyfundrefn ddeuol o ysgolion gwirfoddol ac Ysgolion Bwrdd. Cadarnhawyd y polisi hwn gan Fesur Balfour yn 1902. Ni bu'r canlyniad yn foddaol naill ai i ysgolion y Wladwriaeth nac i'r ysgolion gwirfoddol.

Gwelwn reswm dros ofni datblygiad cyffelyb yn y Gwasanaeth Ieuencid o ddeueliaeth newydd yn yr ymdrechion sy'n derbyn grantiau i'w cynorthwyo. Mae'n bosibl nad eir ymlaen yn ddiderfyn â'r polisi presennol o dalu grantiau'n gynyddol i fudiadau gwirfoddol, ac ni chafwyd arwydd pa mor bell y mae'r Wladwriaeth am fynd. Fel y mae ar hyn o bryd gall unrhyw Eglwys neu gapel, unrhyw uned o fudiad gwirfoddol, a hyd yn oed unrhyw gasgliad o unigolion, sefydlu clwb adloniant, a gofyn am gynorthwy oddiwrth y wladwriaeth; gall pob enwad a phob sect sefydlu ei fudiad, ac felly gellir sefydlu unrhyw nifer o fudiadau ieuencid "cenedlaethol" newydd, a gofyn am gynorthwy o dan Erthygl 1(c) o'r Rheolau Grant.

Ymhellach nid oes dim o rwystro ugain o fudiadau gwirfoddol yn yr un ardal rhag sefydlu unedau, a gofyn am grantiau i ddarparu'r un cyfleusterau'n union; a hyd yn oed wedi hynny nid oes gennym un sicrwydd y byddid wedi cyfarfod â holl anghenion ieuencid yr ardal.

Ond y mae lle i gredu y gellir osgoi, yn ein gwasanaeth hamdden cenedlaethol, y prif ddiffygion sydd yn y "gyfundrefn ddeuol" yn ein haddysg ffurfiol, gan fod y Weinyddiaeth Addysg yn awr yn berchen ar brofiad helaeth, dulliau profiadol o weithredu, a staff, wedi eu hyfforddi, wrth law i gynorthwyo i ddadrys y broblem.

22. Ymddengys inni y gall yr awdurdodau statudol gyfarfod, mewn modd cynyddol a digonol, â'r angen am ddarparu ar gyfer pobl ieuainc fodion a chyfleusterau i iawn. Ddefnyddio'u horiau hamdden. Golyga hyn y dylai Awdurdodau Addysg Lleol ddatblygu Canolfannau Ieuencid lle bynnag y bo angen, a'u trefnu'n ofalus, fel ag i ddarparu'n briodol ar gyfer y gwahanol oedrannau a'r ddau rhyw, o'r 9 oed, dyweder, hyd yr 20. Yn y canolfannau hyn dylid cynnig i bobl ieuainc y moddion i ymarfer â dewisiad eang o ddiddordebau, naill ai mewn grwpiau o'u dewisiad hwy eu hunain, neu'n unigolion.

Ar yr un pryd, dylai'r Awdurdodau Addysg Lleol frysio i ddatblygu y cynlluniau a fydd yn sicrhau ym mhob ardal gyfleusterau i bawb o'r ieuencid, naill mewn grwpiau annibynnol, neu'n aelodau o fudiad. Dylid bod darpariaeth gynyddol felly ar gyfer gwersylloedd, baddonau nofio, caeau chwarae, cyrsiau hyfforddi, gwasanaeth hyfforddwyr, llyrgelloedd, cydweithredu mewn Eisteddfodau, cymanfaoedd, mabolgampau, etc., etc. Bydd holl ieuencid yr ardal yn rhydd i fanteisio ar y cyfleusterau hyn, ac ni cheid mwyach ofynion oddiwrth lu o fudiadau am gynorthwy'r wladwriaeth ar gyfer yr hyn sydd yn gyffredin i bawb.

Wrth fod yr Awdurdodau Addysg Lleol yn ymgymryd â darpariaethau costus o'r math hwn, byddid yn ysganhau baich ariannol trwm y mudiadau gwirfoddol, a'u galluogu i ganolbwytnt ar eu cyfraniad arbennig hwy at waith ieuencid. Gellir yn aml wneud y cyfraniad hwn o fewn fframwaith Canolfan Ieuencid yr Awdurdodau Addysg Lleol, a thrwy hynny alluogu'r mudiadau gwirfoddol i elwa ar adnoddau'r awdurdod cyhoeddus. Yn wir ceir unedau o lawer mudiad fel yr Urdd, y *Girl Guides*, a'r Scowntaid yn gweithio'n llwyddiannus o fewn fframwaith sefydliadau addysgol.

Fe gymer lawer blwyddyn i baratoi canolfannau a chyfleusterau a gyfarfod a phob gofyniad, ac yn y cyfamser rhaid myned ymlaen â'r polisi o'r cymorthwy grantiau uniongyrchol i fudiadau ieuencid gwirfoddol. Ond yr ydym o'r farn y dylai graddfa'r cynorthwy uniongyrchol hwn leihau fel y cynyddo'r cynorthwy anuniongyrchol, trwy gyfrwng darpariaethau'r awdurdodau addysg lleol.

23. Dylid cadw'r un berthynas rhwng y cynorthwy grant uniongyrchol a gyffrennir i Brif Swyddfeydd y mudiadau gwirfoddol cenedlaethol, â'r cynorthwy anuniongyrchol a roddir. Mewn llawer cyfeiriad byddai rhoi cyfleusterau a gwasanaethau i bob mudiadau gwirfoddol ar yr un telerau yn fwy mantais barhaol na chynorthwy grant cyfnewidiol, sydd yn rhaid iddo ddibynnu ar amryw ystyriaethau economegol. Byddai'r sicrwydd fod ganddynt hawl i gyflenwad eang o gyfleusterau yn cyfrannu'n helaeth at sefydlogrwydd a pharhad y mudiadau gwirfoddol.

Ymhlieth y cyfryw ddarpariaethau dylid cynnwys cyrsiau hyfforddi o bob math, gan gynnwys cyrsiau i arweinwyr, ar amodau tebyg i amodau cyrsiau i ddarpar-athrawon; sefydlu gwersyloedd cenedlaethol, cyfie i gyfarfod a chenedloedd eraill trwy deithiau i wledydd tramor, a chynorthwy ariannol i gefnogi unigolion i fynd ar y cyfryw deithiau.

24. Yr ydym yn ymwybodol o'r rhan fydd gan y mudiadau gwirfoddo cenedlaethol yn y Gwasanaeth Ieuencid. Dyma'r mudiadau a fu'n cynnal y rhan fwyaf o'r baich yn y blynnyddoedd pan nad oedd cynorthwy i'w gael oddiwrth y Wladwriaeth. Maent mewn dosbarth gwahanol felly i'r mudiadau hynny a flurir y dyddiau hyn, weithiau, efallai, am y gwyddys fod cynorthwy grant i'w gael.

Rhag amlhau o fudiadau newydd, bob un yn dibynnu ar grantiau oddiwrth y Wladwriaeth, yr ŷm o'r farn na ddylid cyfrannu grant uniongyrchol i fudiadau newydd, ond ar ôl ystyriaeth fanwl a'r ran y Weinyddiaeth Addysg a Phwyllgor Ieuencid Cymru.

25. "Clybiau Caeedig".—Da fyddai i Awdurdodau Addysg Lleol fod yn bur ofalus cyn ategu ceisiadau am gynorthwy grant oddiwrth glybiau sy'n cyfyngu eu haefodau i'r rheini sy'n arddel credoau crefyddol arbennig.

26. *Hyfforddi*.—Gan i bwnc hyfforddi Arweinwyr fod yn destun ymchwiliad pwylgor arbennig, barnwyd iddo fod tu allan i faes yr adroddiad hwn.

27. *Unoliaeth o dan y Weinyddiaeth Addysg*.—Gan ein bod yn ystyried y Gwasanaeth Addysg yn undod, credwn y dylai pob dim sydd a fynno ag addysg, fod o dan un Weinyddiaeth Addysg. Camgymeriad ym mhob ystyr, yn ein barn ni, yw torri addysg yn rhannau a'u galw'n "amaethyddiaeth" etc. Er enghraifft nid da neilltuo "Ffermwyr Ieuainc" a'u trin fel petaent yn perthyn i ryw ddosbarth gwahanol mewn cymdeithas i'r rhelyw o'u cyfoedion. Ymddengys mai doethach fyddai ystyried ffarmio fel un diddordeb ymhlieth eraill, a darparu cyfleusterau ar ei gyfer, yn yr un modd yn union ag ar gyfer y lleill.

## V. Crynodeb o'r Prif Argymhellion

1. Yn y cyfnod wedi'r rhyfel dylai swyddogaeth y Gwasanaeth Ieuencid fod i ddarparu moddion a chyfleusterau i bobl ieuainc yn gyffredinol i dreulio'u horiau hamdden, fel rhan anhepgor o'r Gwasanaeth Addysgol Cenedlaethol.

2. Dylid sylfaenu'r Gwasanaeth Ieuencid Cenedlaethol ar y syniad o bartneriaeth rhwng y Weinyddiaeth Addysg yr Awdurdodau Addysg Lleol a'r Mudiadau Gwirfoddol.

3. Dylai'r daru'r moddion a'r cyfleusterau hyn fod yn rhan o swyddogaeth statudol yr Awdurdodau Addysg, hynny yw, y Weinyddiaeth Addysg a'r Awdurdodau Addysg Lleol.

4. Yng nghyfnod y trawsnewid o'r trefniadau presennol i'r ddarpariaeth gyflawn ar gyfer oriau hamdden, dylid dal ymlaen at y polisi presennol o roi cynhorhwy ariannol uniongyrchol i fudiadau gwirfoddol cenedlaethol, a'u hunedau lleol, ac i unedau annibynnol lleol eraill.

5. Yng nghyfnod y trawsnewid dylai'r Weinyddiaeth Addysg a'r Awdurdodau Addysg Lleol chwanegu'n gynyddol at eu darpariaeth ar gyfer ieuenciad tu mewn i fudiadau sefydledig a thu allan iddynt, ac at y cynhorhwy anuniongyrchol i fudiadau ieuenciad, a chwtogi eu cynhorhwy ariannol uniongyrchol fel bo'r cynhorhwy anuniongyrchol yn cynyddu.

6. Hyd yn oed y pryd hwnnw dylid bod cynhorhwy ariannol uniongyrchol wrth law i fudiadau gwirfoddol, pa un ai i'r Brif Swyddfa neu at bwrrpas amcanion lleol, sydd ganddynt gyffraniadau cymeradwy arbennig a phendant i'w gwneud at wasanaeth ieuenciad.

7. Na ddylid talu grantiau fel ag a roddir heddiw, o dan Adran 1(c) o'r Rheolau Grant ar gyfer Hyfforddiant Cymdeithasol a Chorfforol, i fudiadau newydd, ond ar ôl ystyriaeth fanwl ar ran y Weinyddiaeth Addysg a Phwyllgor Ieuenciad Cymru.

8. Y dylai'r Awdurdodau Addysg Lleol fod yn bur ofalus cyn cymeradwyo cais am grant oddiwrth glybiau sy'n cyfyngu ei aelodau i'r rheini sy'n arddel credoau crefyddol arbennig.

9. Y dylid chwanegu at y grant a roir gan y Llywodraeth i Awdurdodau Addysg Lleol at eu treuliau ar y Gwasanaeth Ieuenciad.

10. Y dylai pob gweithgarwch "addysgol" ieuenciad fod dan arolygiaeth un weinyddiaeth, sef y Weinyddiaeth Addysg.

*Crown Copyright Reserved*

LONDON

PRINTED AND PUBLISHED BY HIS MAJESTY'S STATIONERY OFFICE

To be purchased directly from H.M. STATIONERY OFFICE at the following addresses:

York House, Kingsway, London, W.C.2 ; 132 Castle Street, Edinburgh 2 ;  
39-41 King Street, Manchester 2 ; 1 St. Andrew's Crescent, Cardiff ;  
80 Chichester Street, Belfast ;  
or through any bookseller

1945

Price 4d. net